GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Llawdriniaeth Stapedectomi

## Cyngor i Glaf ar ei rhyddhad o'r ysbyty

---

**Llawdriniaeth Stapedectomi:**

Bwriad llawdriniaeth Stapedectomi yw gwella clyw. Gwneir y llawdriniaeth drwy'r corn glust ac mae'n golygu tynnu asgwrn caled y stapes a gosod prosthesis.

**Y clwyf:**

Bydd clwyf bach ar gefn eich llabed clust a fyddai wedi'i gau gyda phwyth y gellir ei doddi (pwyth nad oes angen ei dynnu). Byddai'r toriad hwn wedi'i wneud er mwyn cael ychydig o fraster a ddefnyddir i osod o gwmpas y prosthesis.

Yn anaml, efallai y bydd clwyf arall ar ben y fynedfa i gorn y glust a fyddai eto wedi'i gau gyda phwyth y gellir ei doddi (gwneir toriad dim ond os yw eich corn glust yn arbennig o gul).

Mae'n bwysig eich bod yn cadw'r clwyfau a'r corn glust yn sych nes eich bod yn cael eich adolygu mewn clinig ôl-lawdriniaeth. Ar yr adeg hynny fydd eich llawfeddyg yn rhoi cyngor pellach i chi yn dibynnu ar sut rydych wedi gwella.

**Pecyn corn y glust:**

Fel arfer, gosodir pecyn yng nghorn y glust wedi'r llawdriniaeth er mwyn dâl y grafft yn ei le ac i leihau'r risg o haint. Y math o becyn a ddefnyddir yw un sy'n toddi'n araf. Os parheir unrhyw ran o'r pecyn yn y glust fe fydd y clinig yn ei dynnu oddeutu 1 wythnos wedi'r llawdriniaeth fel arfer.

Fe all rhedlif crawnllyd a chwydd o'r glust awgrymu fod haint yn bresennol. Yn yr achos yma cysylltwch ag ystafell driniaeth Clust, Trwyn a Gwddf (ENT) neu ward D5E (tu allan i oriau).

**Cyfnod adfer:**

Mae'r poen ac anghysur yn tueddu i fod yn ysgafn ac fel arfer mae'n gwella o fewn ychydig ddyddiau. Byddwch yn cael cyngor ar sut i leddfu'r poen cyn i'ch nyrs eich rhyddhau. Mae'r rhan fwyaf o gleifion angen 2-3 wythnos i ffwrdd o'r gwaith er mwyn gwella. Ni argymhellir codi pethau trwm/rhoi straen o unrhyw fath ar eich corff/gwneud unrhyw ymarfer egnïol yn ystod y cyfnod hwn.

**Pendro:**
Mae'r rhan fwyaf o bobl yn dioddef pendro am y 2 ddiwrnod cyntaf ar ôl llawdriniaeth. Dylai hyn setlo erbyn eich ymweliad clinig cyntaf wedi'r llawdriniaeth. Dylech drafod hyn gyda'ch llawfeddyg, os oes problem o hyd.

**Hedfan:**
Ni ddylwch hedfan am 3 mis yn dilyn y llawdriniaeth.

**Sgwba-blymio:**
Fe all sgwba-blymio disodli'r prosthesis a hefyd achosi pendro ddifrifol. Dylech felly peidio byth â chymryd rhan yn y fath yma o chwaraeon wedi stapedectomi.

**Blasu:**
Mae'r nerf blasu yn rhedeg ar draws drwm y glust a gellir ei ymestyn/ei symud/ei dorri er mwyn i'r llawdriniaeth gael ei berfformio. Gall hyn achosi newid yn eich profiad o flas a fydd fel arfer yn sefydlogi o fewn ychydig fisoedd.

**Ôl-driniaeth:**
Fe ddylech chi gael eich gweld yn y clinig cleifion allanol ymhen tua 1 wythnos wedi'r llawdriniaeth. Ar yr adeg hynny, bydd unrhyw ran o'r pecyn sy'n weddill yn cael ei dynnu o gorn y glust a bydd drwm y glust yn cael ei wirio. Os na fyddwch chi'n derbyn yr apwyntiad hwn, ffoniwch y swyddfa archebu apwyntiad i gleifion allanol ar 01495765055.

**GWYBODAETH BRYS I GLAF SYDD WEDI EI RHYDDHAU O'R YSBYTY**

**09:00 to 17:00 O ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc):** Cysylltwch â'r ystafell Triniaeth ENT ar 01633 234018

**Wedi 17:00/dros nos (oedolion):** Ward C0 01633 493926.

**Os bydd argyfwng, ewch i'ch adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf**

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English”**